# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**DYDD LLUN, 1AF CHWEFROR, 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
M. Charles, A. Davies, J. Davies, K. Davies, J. Gilasbey, T. Higgins, E. Morgan, D. Phillips, S. Phillips, A. Speake, D. Thomas ac A. Vaughan-Owen

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd C. Campbell – Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Cymunedau & Materion Gwledig
Y Cynghorydd H. Evans – Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd
Y Cynghorydd D. Jenkins – Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Mullen – Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
R. Hemingway – Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
J. Morgan – Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
S. Pilliner – Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
A. Williams – Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
R. Edmunds – Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes
J. Edwards – Rheolwr Gwella Busnes
K. Harrop – Rheolwr Diogelwch Cymunedol
R. James – Cyfrifydd Grŵp
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd
J. Corner – Swyddog Technegol

**Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 11.35 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIP A NODWYD MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD PERFFORMIAD HANNER BLWYDDYN 2020/21 (1 EBRILL TAN 30 MEDI 2020)

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad Hanner Blwyddyn 2020/21 am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y mesurau perfformiad a geir yn Strategaeth Gorfforaethol 2020/21. Nodwyd, oherwydd y pandemig Covid-19, nad oedd Cynlluniau Gweithredu Adrannol ar gyfer 2020/21 yn cael eu monitro ar hyn o bryd er mwyn galluogi gwasanaethau i ganolbwyntio ar ddelio ag argyfyngau. Yn hytrach na monitro'r camau gweithredu a osodwyd cyn y pandemig, lluniwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned hanner blwyddyn mewn perthynas â
Covid-19 a'r bwriad hefyd oedd llunio adroddiad blynyddol ar Amcanion Llesiant y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2020/21.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd i swyddogion a yw'r amnest gwastraff presennol wedi arwain at fwy o achosion o dipio gwastraff peryglus yn anghyfreithlon. Hysbyswyd y Pwyllgor bod hyn yn wir pan gaewyd safle'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref ond na fu unrhyw broblemau ers hynny;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod rhai mesurau wedi'u rhestru fel rhai nad oedd ganddynt darged a gofynnwyd i swyddogion a oedd hyn ar gyfer y cyfnod Covid yn unig gan ei bod yn anodd craffu os nad oes targedau. Cadarnhaodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel mai dim ond ar gyfer y cyfnod Covid yr oedd hyn gan na fyddai'r targedau, oherwydd yr amgylchiadau, yn dweud dim wrthym mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd hefyd y bydd y targedau hyn yn cael eu hadolygu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2021/22 hyd at 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2021/22 i 2023/24 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/2022 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/2023 a 2023/2024. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant, ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 22 Rhagfyr 2020. Roedd hefyd yn adlewyrchu cyflwyniadau adrannol cyfredol ar gyfer cynigion am arbedion ar ôl ystyried effaith y pandemig Covid-19 ar gyflawni'r arbedion hynny.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, nodwyd mai datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddaru dros y mis i ddod wrth i'r gyllideb gael ei datblygu ymhellach, ymgysylltu ag aelodau'r cyngor a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y setliad terfynol i fod i gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar 2 Mawrth 2021.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Covid-19 wedi arwain nid yn unig at gostau ychwanegol na welwyd eu tebyg o'r blaen ond hefyd at ostyngiad mewn incwm pwysig, yn

enwedig yn ystod cyfyngiadau symud. Rhagwelwyd y byddai'r cyfuniad o wariant ychwanegol a cholli incwm yn cael effaith o £30 miliwn ar gyllidebau Sir Gaerfyrddin ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae awdurdodau wedi cyflwyno hawliadau misol, sydd wedi'u hasesu ac i raddau helaeth iawn, wedi'u had-dalu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, nid yw cyllid parhaus Llywodraeth Cymru fel hyn wedi'i ymrwymo ar hyn o bryd, yn bennaf gan nad oes gan Lywodraeth Cymru ei hun gyllid wedi'i gadarnhau eto o ganlyniad i wariant San Steffan sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Er bod y Strategaeth yn cynnig cynnydd o 4.89% yn y Dreth Gyngor ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol, roedd y Bwrdd Gweithredol wedi argymell y dylid lleihau'r cynnydd ar gyfer 2021/22 i 4.48%. Byddai'r Cyngor yn ystyried yr argymhelliad hwn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2021 wrth bennu lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22. Yn ogystal, byddai ffigur setliad terfynol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi ar 2 Mawrth 2021 a byddai unrhyw ddiwygiadau y mae'n ofynnol eu hystyried mewn perthynas â Strategaeth y Gyllideb sy'n deillio o'r cyhoeddiad hwnnw hefyd yn cael eu hystyried gan y Cyngor ar 3 Mawrth.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer Gwasanaeth yr Amgylchedd
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Er bod cynigion y gyllideb yn rhagdybio y byddai'r holl gynigion arbedion yn cael eu cyflawni'n llawn, ynghyd â nodi a chyflawni'r diffyg mewn cynigion arbedion ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24, byddai angen nodi gostyngiadau pellach mewn costau ar gyfer y blynyddoedd olaf hynny er mwyn cynnal Strategaeth y Gyllideb bresennol a lefel y Dreth Gyngor. Cyfanswm yr arbedion a nodwyd ym mlynyddoedd 2 a 3 y Strategaeth oedd £1.96 miliwn a byddai adrannau'n gweithio dros y flwyddyn i ddod i nodi'r arbedion hynny

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn sgamiau ffôn sy'n targedu'r henoed a'r rheiny sy'n agored i niwed yn ystod y cyfyngiadau symud a gofynnwyd i swyddogion a oedd unrhyw bosibilrwydd y byddai arian ychwanegol yn cael ei ddarparu i helpu i brynu dyfeisiau ar gyfer y gwasanaeth TrueCall;
- Cyfeiriwyd at y cyfanswm o £60k o arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn yr Uned Diogelwch Ffyrdd yr oedd gobaith ei adennill drwy nawdd, a gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn weddol hyderus y gellid cael yr arian o nawdd. Eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y cynnig hwnnw ym mlwyddyn 2 y rhaglen arbedion, a oedd yn rhoi rhywfaint o amser i swyddogion weithio ar y posibilrwydd o gael nawdd.
- Cyfeiriwyd at yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn achos Cynnal a Chadw Fflyd y Cyngor a'r cynnig i wrthbwyso hyn drwy ehangu swm y gwaith y gellir

codi tâl arno drwy gynnal MOTs, a gofynnwyd i swyddogion pa mor sensitif ydym i fusnesau bach sy'n cynnig MOTs gan na fyddem am gystadlu yn eu herbyn a'u rhoi allan o fusnes. Eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod hwn yn wasanaeth sy'n derbyn llawer o geisiadau gan y cyhoedd a bod y cynnig hwn yn cael ei wneud mewn ymateb yn unig i alw gan y cyhoedd;

- Cyfeiriwyd at y gostyngiad yn y gyllideb amddiffyn rhag llifogydd; gan gydnabod bod £5k yn swm cymharol fach, mynegwyd pryder ynghylch y cynnig hwn o gofio ein bod yn wynebu tywydd mwy difrifol a hinsawdd sy'n newid. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod £5k yn swm cymharol fach ac y byddai'n golygu llai o waith ar raddfa fach; fodd bynnag, mae mwy o arian yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar sail cynllun felly ni fyddai unrhyw niwed;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod cyllideb y Gwasanaethau Gwastraff wedi gostwng £55k oherwydd bod grantiau wedi dod i ben a mynegwyd pryder y gallai hynny ddigwydd i'r grantiau amddiffyn rhag llifogydd y cyfeiriwyd atynt yn gynharach;
- Cyfeiriwyd at yr arbedion arfaethedig mewn Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gofynnwyd i swyddogion sut yr oeddent yn bwriadu lleihau gwariant a sut yr eir i'r afael â'r materion presennol sydd heb eu datrys. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd wrth y Pwyllgor fod y timau cynnal a chadw a'r timau cyfreithiol newydd uno â'i gilydd ac y byddant yn edrych ar y rhaglen ymyriadau;
- Gofynnwyd i swyddogion pa mor hyderus ydynt y bydd unrhyw grantiau a ragwelir gan Lywodraeth Cymru ar gael. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod ffigurau grantiau wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ar lefel Cymru gyfan. Ychwanegodd mai'r ansicrwydd yw sut y bydd cyllid y sector cyhoeddus yn newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf;
- Cyfeiriwyd at y gostyngiad mawr yn y cyllid ar gyfer graeanu dros y gaeaf ac, er ein bod yn cydnabod ein bod wedi cael gaeafau ysgafn iawn am y 5-6 blynedd diwethaf, gofynnwyd i swyddogion a oes arian ar gael pe bai gennym gyfnod gwael o dywydd rhewllyd/rhewllyd. Eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod yn rhaid i'r adran flaenoriaethu yn unol â hynny er mwyn sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol. Ychwanegodd ein bod wedi cael llawer o dywydd gwael yn ddiweddar ac mae'r adran wedi ymateb i hynny'n briodol;
- Cyfeiriwyd at y gostyngiad yn y gyllideb ysgubo ffyrdd a'r ffaith bod yna 2-3 modfedd o ddail marw ar ffyrdd gwledig y llynedd a gafodd eu golchi i'r cwteri ar ôl cyfnod o law trwm. Dim ond 2 lwyth y dydd y gall ysgubwyr ffyrdd ei wneud a gofynnwyd i swyddogion a fyddai modd defnyddio mwy o lwythwyr pen blaen gyda 2 weithredwr a fyddai'n arwain at gyflawni llawer mwy o glirio mewn diwrnod. Gofynnwyd i swyddogion hefyd a fyddai'n bosibl mynd â'r dail marw i ganolfannau ailgylchu i'w compostio. Eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd ei bod yn anodd rhagweld cwymp dail bob blwyddyn ac o ganlyniad rhaid i'r swyddogion ymateb i'r sefyllfa fel y mae'n codi yn anffodus. O ran yr awgrym ynglŷn â llwytho/codi, eglurodd fod hyn yn fater o argaeledd adnoddau. Ychwanegodd y byddai'n archwilio'r syniad o gompostio; fodd bynnag, roedd yn ofni y gallai fod yna broblem yn ymwneud â halogi.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL**

**5.1 bod Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22–2023/24 yn cael ei derbyn;**

**5.2 bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r**

**Cyhoedd a'r Amgylchedd, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn;**

**5.3 bod y posibilrwydd o ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth TrueCall yn cael ei archwilio.**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 16.5 gofynnodd y Cynghorydd A. Speake am i'r ffaith ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem uchod gael ei chofnodi yn y cofnodion.

## 6. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW A'R GYLLIDEB GYFALAF 2020/21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2020, mewn perthynas â 2020/21.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at nifer y swyddi gwag yng Ngwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a gofynnwyd i swyddogion a yw'r rhain wedi'u hysbysebu/llenwi. Eglurodd y Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes fod llawer o symud staff wedi bod i helpu'r tîm Profi Olrhain Diogelu a'r nod oedd llenwi pob swydd wag cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol:-

- Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor restr o eitemau i'w cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 5 Mawrth 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.**

## 9. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 14 RHAGFYR 2020 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**